

Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon RHAGFYR 2016
APEL NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL

Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr. Esecia 9:2

Mae 2016 wedi bod yn flwyddyn anodd ac ansicr. Yn rhy aml mae'r newyddion wedi bod yn llawn storïau am gasineb ac ofn, am drais disynnwyr, ac am annynoldeb dyn tuag at ei gyd-ddyn. Wrth i'r gwan a'r diamddiffyn ddiodeff, mae'r byd wedi ymddangos yn le tywyll iawn. Rwyf fi'n bersonol yn ddiolchgar, felly, am ichi gadw gwaith Cymorth Cristnogol yn eich gweddïau trwy gydol y flwyddyn ac am ein cefnogi mor ffyddlon.

Wrth inni wynebu lluniau yn y newyddion am bobl yn gorfod ffoi rhag trais, cofiwn mai ffoadur oedd ein Gwardwr, Iesu Grist, wrth iddo ffoi rhag erledigaeth Herod. Heddiw, mae 65 miliwn o bobl wedi eu dadleoli, ar ôl iddynt ffoi o'u cartref i chwilio am loches. Mae ein hapêl Nadolig yn ceisio lliniaru eu dioddefaint, ac rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i ofyn am eich help yn yr ymdrech hwn.

Ym mhob cornel o'n byd y Nadolig hwn, mae pobl yn byw mewn tywyllwch. Helpwch ni i ddod a goleuni iddynt.

I hybu ein hapêl, bydd staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn cerdded 140 milltir mewn taith nodedig ar hyd Cymru, o Fethlehem yn Sir Gaerfyrddin, i'r Aifft yn Sir Ddinbych. Rydym am i'r daith fod yn arwydd cyhoeddus o gefnogaeth Cymru i ffoaduriaid, Mae manylion llawn y llwybr, a sut i gofnodi eich diddordeb ar ei gwefan yn <http://www.christianaid.org.uk/cymru/news/escape.aspx?Page=2>.

Gallai eich cefnogaeth helpu pobl fel Angelique, o Weriniaeth Ddemocrataidd y Congo. Cipiwyd hi o'i chartref gan ddyinion arfog, ei threisio sawl gwaith a'i gadael yn y goedwig i farw. Gadawodd ei gŵr hi. Heddiw, caiff Angelique a'i dau o blant eu cefnogi gan bartneriaid Cymorth Cristnogol yn y Congo, sydd yn ei chefnogi yn seicolegol, yn rhoi grant bach iddi gael prynu nwyddau angenrheidiol a hyfforddiant fel ei bod yn gallu cynhyrchu incwm cynaliadwy er mwyn iddi allu ailadeiladu ei bywyd. Ond y mae nifer eraill sy'n parhau i fod mewn angen mawr.

Gallai £20 brynu matras i rywun sydd mewn mawr angen am le diogel i orffwyso.

Gallai £50 brynu hadau ac offer garddio i helpu teulu wedi eu gorfodi o'u cartref i allu tyfu bywyd eu hunain.

Gallai £120 brynu gofal meddygol a chwmsela i ferch sydd wedi dioddef trais rhywiol, gan ei helpu i ymdopi gyda'r hyn sydd wedi digwydd iddi.

Mr Huw Thomas, Penaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru

Dymuna'r Gweinidogion a'u teuluoedd bob tangefedd i chwi dros yr Ŵyl a phob bendith i'r flwyddyn newydd.



HUNODD

Bore Sadwrn 26 Tachwedd bu farw Mrs Rhian Jones, Benar, Ffordd Waterloo. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng ngapel Salem, p'nawn Llun 5 Rhagfyr. Trysorwn yr atgofion gwerthfawr a chynnes sydd gennym ohoni gyda'i hoffter yn gosod blodau a choginio. Mae tyrfa fawr o bobl a lluo o gymdeithasau'n ddyledus iddi am nifer o gymwynasau. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Ieuan ei phriod, a'r plant Sioned a Robin a'u teuluoedd.

COLLI PERHYNAS.

Mrs Gwyddfïd Jones, Isgaer, Ffordd Bangor ym marwolaeth ei thad Mr Elwyn a Mrs Lallie Griffiths, Bod Eilian, Ffordd Dinorwig ym marwolaeth chwaere i Elwyn.

Mr Ian a Mrs Elen Medi Morgan, Bryn Eirian ym marwolaeth tad Ian.

Mrs Margaret Parry, 12 Llys Siabod ym marwolaeth ei brawd. Mr William a Mrs Euronwy Williams Brig yr Allt ym marwolaeth chwaer yng nghyfraith i Euronwy.

YN YR YSBYTY

Mr Dafydd Owen, Llechwedd, Rhosbodrual—Ysbyty Gwynedd.

Mrs Edith Powell, Carig Ola, Stryd y Faenol - Ysbyty Eryri.

CYFNOD YN YR YSBYTY

Mrs Beryl Jones, Penryhn, Y Grugan, Groeslon, Mrs Kelly Parry, Tŷ Capel Seilo, Mrs Edwina Parry, Ty Capel Salem, Mr David Gareth Pritchard, Llanddeusant, Mrs Elsie Thomas, 24 Llys y Foel, Erin Rhys Jones, Bronallt, Lôn Ddewi a Owain Iago Williams, Cartref, Ffordd Fictoria plant y capel.

Meddyliwn am ein haelodau sydd MEWN CARTREFI PRESWYL

Bryn Seiont Newydd: Mrs Elsie Bennett.

Plas Garnedd, Llanfairpwll: Mr T. Elwyn Griffiths,

Plas Pengwaith, Llanberis: Mrs Margaret Jones,

LLONGYFARCHIADAU I

Dafydd a Jean Owen, Llechwedd, Rhosbodrual ar ddatheleu eu priodas diemwnt.

Mr Geraint a Eleri Lovgreen, Y Clogwyn, Lôn Ysgubor Wen ar ddod yn Daid a Nain i Huw Gwyn mab Gwilym a Ffion, brawd bach i Ifan.

Toan Ellis Hughes, Brentwood, Ffordd Bangor ar gael ei ddewis yn aelod o Band Cenedlaethol Ieuencid Cymru

CYFRANIADAU ARIANNOL.

Dalier sylw:

*bod llyfrau cyfrifon yr eglwys yn cau Sul ola'r flwyddyn 25Rhagfyr 2016

* am yr anogaeth i gyfrannu trwy gyfrwng debyd uniongyrchol.

* am y gwahoddiad i bob aelod geisio ychwanegu 10% at eu cyfraniad blynddol.

*am yr ymgyrch i ddenu cyfamodwyr newydd. Drwy Gyfamodi (Gift Aid) cawn 25c am bob £1, ar yr amod eich bod yn talu Treth Incwm. Gwneir hyn drwy arwyddo ffurflen berthnasol. Yn 2013 derbyniwyd £5935 yn 2015 derbyniwyd £7000 ac yn 2016 derbyniwyd £5000 Mae'r fffynonell hon yn un hawdd i dderbyn incwm ychwanegol at weithagredau'r eglwys.

*Ddefnyddio'r amlenni wythnosol (Iliw melyn.) Os dymunwch ragor cysylltwch â Gofalwr eich

Dosbarth. * GWNEWCH YN SIWR FOD EICH RHIF AELODAETH AR BO AMLLEN



**DRAMA'R
GENI AR Y
MAES
1RHAFYR
2016**

*Diolch i
Richard
Jones,
C'fon am y
llun*

Diolch i Lleucu Mair (Mair) Dylan Owen (Joseff) Ifor ap Glyn (Buga il) a Mia Catrin a Seren Lois (y ddwy angel)

CYFRANIADAU ARIANNOL.

Dalier sylw:

*bod llyfrau cyfrifon yr eglwys yn cau Sul ola'r flwyddyn 25Rhagfyr 2016

* am yr anogaeth i gyfrannu trwy gyfrwng debyd uniongyrchol.

* am y gwahoddiad i bob aelod geisio ychwanegu 10% at eu cyfraniad blynddol.

*am yr ymgyrch i ddenu cyfamodwyr newydd. Drwy Gyfamodi (Gift Aid) cawn 25c am bob £1, ar yr amod eich bod yn talu Treth Incwm. Gwneir hyn drwy arwyddo ffurflen berthnasol. Yn 2013 derbyniwyd £5935 yn 2015 derbyniwyd £7000.ac yn 2016 derbyniwyd £5000 Mae'r ffynhonell hon yn un hawdd i dderbyn incwm ychwanegol at weithagredau'r eglwys.

*Ddefnyddio'r amlenni wythnosol (lliw melyn.) Os dymunwch ragor cysylltwch â Gofalwr eich Dosbarth. * **GWNEWCH YN SIWR FOD EICH RHIF AELODAETH AR BOB AMLEN**

Y GRWPIAU A'R PWYLLGOR GWAITH.

Dyddiadau'r PWYLLGOR GWAITH yn 2017 :

26 Chwefror, 9ed Ebrill, 25 Mehefin, 4 Medi. 26 Tachwedd .

Y GRWPIAU. Trafodwyd y grwpiau yng nghyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith . Pnerfynnwyd cadw'r grwpiau fel ag y maent am flwyddyn arall. Newidiwyd y cymal o 'berthyn i ddau grwp yn unig' i berthyn i unrhyw un o'r grwpiau .

Y grwpiau yw :

Grwp 1 : Addoli a Cherddoriaeth **Grwp 2 :** Cymdeithasu , Cyhoeddusrwydd a Bugeilio.

Grwp 3 : Cyllid ac Adeiladu. **Grwp 4 :** Plant a Ieuenctid.

Edrychwch allan am ddyddiadau cyfarfodydd y grwpiau yn y flwyddyn newydd

GWEITHGAREDDAU'R NADOLIG.

SUL 18 Rhagfyr.

Bore am 10 : Oedfa'r teulu . Yn dilyn yr oedfa bydd CINIO BARA A CHAWS yn y Ffestri. Bydd yr arian yn mynd at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

P'nawn am 5 . 'Ar Goll' yng nghwmni'r plant .Yn dilyn y cyfarfod bydd Parti Nadolig y Plant.

Nos Fawrth 22 Rhagfyr .

Canu Carolau o amgylch cartrefi Preswyl Caernarfon gan orffen yn Ysbyty Eryri .

Cychwyn yn nghartref Gwynfa am 6 o'r gloch

DYDD DOLIG . (25 Rhagfyr) Oedfa yn y Ffestri am 9.30 .

2017

Sul 1 Ionawr: Oedfa'r bore yn unig am 10 o'r gloch dan ofal y Gweinidog. Gweinyddir Sacrament y Cymun.

Nos Fercher 6 Ionawr: Oedfa Weddi Dechrau'r Flwyddyn yn Noddfa . Trefniant Cyngor Eglwysi'r Dref

Sul 10 Ionawr : Bore am 10 : Gweinidog (J.R) P'nawn am 4: Parch John Lewis Jones, Bae Colwyn. Ysgol Sul y plant/ieuenctid yn ail gychwyn ar ol y gwyliau.

SUL 17 Ionawr : Bore am 10 yng Nghapel y Maes: Oedfa Undebol dan nawdd Cyngor Eglwysi'r Dref i gychwyn Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol. Pnawn am 4.00 Y Gweinidog. (J.R)

BORE COFFI A MINS PEI A BYRDDAU GWERTHU

Diolch am gefnogaeth ragorol a gafwyd bore Sadwrn 3ydd Rhagfyr . Diolch i Miss Enid Lewis Jones am drefnu ac i'r holl wirfoddolwyr fu'n helpu. Casglwyd dros £1000 . Defnyddiwyd yr elw i brynnu llwyfan newydd i'r Sedd Fawr.

CLWB DARLLEN : Y llyfr a ddarlennir yn ystod yr wythnosau nesaf: 'Aderyn Prin' gan Elen Wyn ' Mae'r Clwb Darllen yn cyfarfod ar yr ail Nos Lun yn y mis am 7.30 yn Llety'r Bugail. Dyddiad cyfarfod nesaf: 9 Ionawr 2017. Croeso i aelodau newydd.

DIOLCH YN FAWR!

Mae Isabel Logan Owen yn rhan o gynllun sy'n ceisio gwella safon hylendid merched i filoedd o ferched yng ngwledydd tlotaf y byd. Mae'r cynllun angen hen doweli/llieiniau. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i greu nwyddau hylendid merched yn rhad. Cafwyd cyfle i roi toweli/llieiniau Suliau 4ydd a 11eg o Rhagfyr.

Dymuna'r Gweiniidogion a'u teuluoedd bob tangefedd i chwi dros yr Ŵyl a phob dymuniad da i'r flwyddyn newydd.